# Cyfleoedd Profiad a Sgiliau
## Credyd Cynhwysol

**VO1W** (Ebrill 2018)

Adran Gwaith a Phensiynau

Credyd Cynhwysol: Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a phrofiad i'ch helpu i ddod o hyd i waith

Pan fyddwch yn hawlio Credyd Cynhwysol oherwydd eich bod yn ddi-waith a disgwylir i chi chwilio neu baratoi am waith, mae ystod o gynlluniau ar gael i ddatblygu eich sgiliau a'ch profiad i'ch helpu i ddod o hyd i waith.

Yn ystod eich amser ar Gredyd Cynhwysol, byddwch chi a'ch anogwr gwaith yn cytuno ar y camau y mae angen i chi eu cymryd i baratoi ar gyfer gwaith nawr neu yn y dyfodol ac efallai y cewch eich cyfeirio at un neu fwy o'r cyfleoedd hyn. Er enghraifft, os oes angen gwella ar eich Saesneg neu Fathemateg, neu os byddai ennill cymhwyster cydnabyddedig mewn sector arbennig yn gallu eich helpu i gael gwaith mewn sector penodol.

Bydd lleoliad profiad gwaith gyda chyflogwr yn caniatáu i chi ychwanegu rhywfaint o hanes gyrfa i'ch CV ac ennill llawer o'r sgiliau y mae cyflogwyr eu hangen.

Gall eich anogwr gwaith ddweud wrthych a yw'r cyfleoedd a ddisgrifir yn y canllaw hwn yn addas i chi.

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth am y gwahanol gynlluniau ar gael i chi, yn cynnwys beth mae DWP yn disgwyl gennych os ydych yn cytuno i ddechrau a tra rydych yn mynychu. Dylech ddweud wrth eich anogwr gwaith os oes gennych unrhyw bryderon am yr hyn a olygir gan unrhyw gyfle, hyfforddiant neu brofiad gwaith neu beth sy'n ofynnol i chi ei wneud.

Bydd eich anogwr gwaith am i chi ofyn cwestiynau fel eich bod yn gallu elwa o fynychu’r cyfle mwyaf addas. Cofiwch y rheswm y mae gennym y cynlluniau hyn yw i’ch helpu i baratoi am symud i mewn i waith.

Mae rhai cyfleoedd yn cael eu cyflenwi gan gyflogwyr ag eraill gan sefydliadau sy’n gweithio gyda ni i gynnig yr hyfforddiant a phrofiad gwaith rydych ei angen - rydym yn cyfeirio atynt fel 'ddarparwyr'.

Os, ar ôl darllen y canllaw hwn, rydych yn teimlo y byddai un neu fwy o'r cyfleoedd hyn yn eich helpu, siaradwch â’ch anogwr gwaith. Gall eich anogwr gwaith trafod y cymorth lleol arall sydd hefyd ar gael drwy eich Canolfan Gwaith.

Siaradwch â'ch anogwr gwaith os bydd angen help arnoch i ddeall y canllaw hwn, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill.

Noder:

Bwriedir y canllaw hwn ar eich cyfer os ydych yn derbyn Credyd Cynhwysol ac wedi cytuno i weithgareddau sy'n berthnasol i waith neu i baratoi at waith a ddisgrifir yn eich ymrwymiad hawlydd.

## Cynnwys

**Hyfforddiant neu gymorth arall i ennill sgiliau newydd** ewch i dudalen 5

Mae anogwyr gwaith yn gwirio'r sgiliau sydd gennych a'r rhai nad sydd gennych sy'n eich atal rhag dechrau gweithio. Os diffyg sgiliau penodol yw'r prif beth sy'n eich rhwystro rhag gweithio, gallwch chi gael eich cyfeirio at asesiad sgiliau gyda darparwr i gael yr hyfforddiant sydd ei angen arnoch i ddysgu'r sgiliau hyn.

**Academi gwaith seiliedig ar sector** ewch i dudalen 7

Mae'r cyfleoedd hyn ar gael os ydych yn byw yn Lloegr neu'r Alban. Bydd yn eich helpu i ddatblygu'r sgiliau a'r ymddygiadau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt mewn gweithwyr newydd.

Mae academi gwaith seiliedig ar sector yn cynnig hyfforddiant a phrofiad gwaith mewn math o swydd benodol. Ar y diwedd, byddwch naill ai'n cael cyfweliad swydd neu help gyda'r broses o wneud cais i'r cyflogwr.

**Hyfforddeiaeth** ewch i dudalen 9

Mae hyfforddeiaethau ar gael yn Lloegr, ac fe'u dyluniwyd i helpu pobl ifanc 16 i 24 oed nad oes ganddynt sgiliau neu brofiad gwaith priodol eto - mae hyfforddeiaethau'n darparu'r hyfforddiant paratoi at waith hanfodol, Saesneg a Mathemateg lle bo'n briodol, a'r profiad gwaith sydd ei angen i'ch paratoi chi am brentisiaeth neu waith arall.

**Profiad gwaith** ewch i dudalen 11

Efallai y gallwch wirfoddoli i wneud cyfle profiad gwaith gyda chyflogwr sy'n lleol i chi. Mae'r cyfleoedd hyn fel arfer yn para am 2 i 8 wythnos, ac fel arfer disgwylir i chi fynychu am hyd at 30 awr yr wythnos gan roi profiad delfrydol o'r gweithle i chi.

**Lwfans Menter Newydd** ewch i dudalen 13

Mae'r cynllun hwn yn helpu pobl i ddechrau eu busnes eu hunain, ac mae'n cynnig mentora busnes a chymorth ariannol os ydych am fynd yn hunangyflogedig.

Bydd angen i chi cael ar eich syniad busnes wedi'i asesu gan ddarparwr mentora, ac os cewch eich derbyn ar y cynllun, cewch gefnogaeth i gynhyrchu eich cynllun busnes.

Efallai y byddwch hefyd yn gallu gwneud cais am gymorth ariannol wythnosol y Lwfans Menter Newydd.

**Treialon Gwaith** ewch i dudalen 17

Mae Treialon Gwaith yn gyfnod prawf ar gyfer swydd wirioneddol lle gallwch chi a'r cyflogwr gymryd rhan heb ymroddiad pellach. Mae hwn yn gyfle delfrydol i sicrhau bod y swydd yn iawn i chi, cyn i chi ddechrau. Mae'r Treial Gwaith yn para am ddim mwy na 30 diwrnod, er eu bod yn debygol o fod yn fyrrach.

**Sancsiynau budd-dal** ewch i dudalen 19

Sancsiwn budd-dal yw pryd y caiff eich arian ei atal neu ei leihau am gyfnod penodol. Mae sancsiynau fel arfer yn digwydd os nad ydych wedi bodloni'r amodau ar gyfer cael budd-daliadau, yn cynnwys gwrthod cymryd rhan neu gwblhau cynlluniau neu weithgareddau penodol.

## Hyfforddiant neu gymorth arall i ennill sgiliau newydd

Os nad oes gennych y math o sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt, efallai y cewch gynnig y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i wella'ch sgiliau, gan gynnwys cael eich sgiliau wedi'u hasesu, a/neu fynychu hyfforddiant i'ch helpu i gael y sgiliau sydd eu hangen i symud i mewn, ac aros yn y gwaith

Efallai y bydd eich Anogwr Gwaith yn gofyn i chi gymryd camau i wella'ch sgiliau. Efallai y gofynnir i chi:

- Cwrdd ag ymgynghorydd gyrfaoedd i drafod eich nodau sgiliau a'ch swydd
- Cwrdd â darparwr hyfforddiant (e.e. mewn coleg) i drafod hyfforddiant
- Cwblhau cwrs hyfforddi.

Efallai y cytunir ar hyn fel rhan o'ch ymrwymiad hawlydd. Os felly, rhaid i chi gwblhau'r gweithgaredd hwn neu gellir lleihau neu atal eich budd-daliadau. Gelwir hyn yn sancsiwn budd-dal.

Bydd cynghorydd gyrfaoedd yn eich helpu i ystyried y math o swyddi yr hoffech eu gwneud, y sgiliau sydd gennych a sut y gall hyfforddiant wella'ch siawns o ddod o hyd i waith neu swydd â chyflog gwell.

Bydd darparwr hyfforddiant yn edrych ar ac yn asesu:

- Eich sgiliau Saesneg, Mathemateg, a Gwybodaeth a Thechnoleg Gyfrifiadurol (TGCh)

- Eich sgiliau iaith lafar, os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf

- Unrhyw sgiliau neu gymwysterau sy'n benodol i swydd sydd gennych eisoes

- Sgiliau gwaith eraill o swyddi blaenorol neu brofiad gwaith.

### Pa mor hir mae'n para?

Os cewch eich cyfeirio at fynychu cwrs hyfforddi bydd faint o amser rydych chi'n ei dreulio'n hyfforddi'n dibynnu ar y math o gwrs a'r cymorth sydd ei angen arnoch i wella'ch sgiliau. Mae hyfforddiant ar gyfer swyddi penodol - fel hyfforddiant gwasanaeth i gwsmeriaid - yn para am wythnos neu bythefnos fel arfer. Fel rheol bydd hyfforddiant i wella eich sgiliau Saesneg, mathemateg neu gyfrifiadurol yn hirach. Bydd eich anogwr gwaith yn esbonio beth mae'r cwrs yn ei olygu a phryd y mae angen i chi fynychu.

### Pryd y gallaf gymryd rhan?

Pan fyddwch yn mynychu'ch cyfweliad cyntaf gyda'ch anogwr gwaith, bydd eich anogwr gwaith yn trafod os yw asesu'ch sgiliau a dechrau hyfforddiant priodol yn addas i chi.

### A oes yn rhaid i mi fynychu?

Os mae eich anogwr gwaith yn anfon chi i gwrdd ag ymgynghorydd gyrfaoedd neu ddarparwr hyfforddiant, **rhaid** i chi fynychu'r apwyntiad.

Os oes gofyn i chi fynychu hyfforddiant, mae'n **rhaid** i chi fynychu a chwblhau unrhyw weithgaredd y cytunwyd arno gyda'ch Anogwr Gwaith ac sydd wedi ei gofnodi ar eich Ymrwymiad Hawlydd.

Os byddwch yn methu â mynychu apwyntiad gydag ymgynghorydd gyrfaoedd neu ddarparwr hyfforddiant neu os na fyddwch yn mynychu unrhyw gwrs hyfforddi fel y cytunwyd gan eich Anogwr Gwaith, heb reswm da, gellid lleihau neu atal eich budd-dal. Gelwir hyn yn **sancsiwn budd-dal.**

Os ydych yn dechrau hyfforddiant a gofynnir i chi adael oherwydd camymddwyn difrifol (fel dwyn, trais neu gam-drin geiriol), gellir sancsiynu eich budd-dal.

Bydd Rhan 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2012 a Rheoliadau Credyd Cynhwysol 2013 yn berthnasol.

Gweler tudalen 19 am fwy am sancsiynau.

### A fyddaf yn cael help gydag unrhyw gostau?

Efallai y bydd yn rhaid i chi deithio i ble mae'r hyfforddiant yn cael ei gynnal. Gallwch gael help ar gyfer cost eich taith trwy drafnidiaeth gyhoeddus ac unrhyw gostau gofal plant priodol. Trafodwch hyn gyda'ch Anogwr Gwaith a fydd yn gallu dweud wrthych a ydych chi'n gymwys i gael help gyda chostau a sut rydych chi'n gwneud cais.

### A fydd dal angen i mi fynd i gyfarfodydd y Ganolfan Gwaith a chwilio am waith?

Os ydych chi'n hawlio Credyd Cynhwysol, byddwch wedi derbyn Ymrwymiad Hawlydd sy'n nodi'r hyn y mae angen i chi ei wneud i gadw mewn cysylltiad â'ch Anogwr Gwaith a'r pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud i baratoi ar gyfer a chwilio am waith. Os bydd mynychu hyfforddiant yn eich atal rhag mynd i gyfarfodydd y Ganolfan Gwaith neu wneud pethau eraill a nodir yn eich Ymrwymiad Hawlydd, rhaid i chi gysylltu â'ch anogwr gwaith ymlaen llaw.

## Beth fydd yn digwydd os byddaf yn cael swydd?

Gan eich bod dal yn gallu hawlio Credyd Cynhwysol pan fyddwch yn gweithio, mae'n bwysig dweud wrthym os ydych yn dod o hyd i waith â thâl. Os ydych chi'n gweithio, efallai na fydd yn rhaid i chi bellach mynychu cyfweliadau â ni nawr ac efallai y byddwn yn dal i allu talu Credyd Cynhwysol i chi. Cadwch mewn cysylltiad â ni i sicrhau nad ydych yn colli allan ar arian y mae gennych hawl iddo.

## Academi gwaith seiliedig ar sector

Mae'r cynllun academi gwaith seiliedig ar sector ar gael yn Lloegr a'r Alban. Fe'i cynllunnir i helpu pobl sydd yn barod i ddechrau gweithio, ond y gallai fod angen iddynt ddysgu'r sgiliau a'r ymddygiadau y mae cyflogwyr mewn diwydiannau penodol yn chwilio amdanynt mewn gweithwyr newydd.

Os bydd eich anogwr gwaith yn trafod academi gwaith seiliedig ar sector gyda chi, gallwch benderfynu cymryd rhan neu beidio, ond unwaith y byddwch wedi cytuno i ymuno mae'n rhaid i chi gwblhau rhai rhannau penodol o'r cynllun. Bydd eich cyfleoedd o gael a chadw swydd gyda'r cyflogwr dros dro, neu gyflogwr arall sy'n cynnig gwaith tebyg, yn gwella drwy gwblhau academi gwaith seiliedig ar sector.

Defnyddir y cynllun academi gwaith seiliedig ar sector gan gyflogwyr i'w helpu i recriwtio i mewn i sectorau swydd sydd â galw uchel ar gyfer staff. Felly, bydd y math o academi gwaith seiliedig ar sector sy'n cael ei gynnig yn amrywio. Mae academi gwaith seiliedig ar sector wedi'i gynllunio i'ch helpu i fagu hyder mewn modd sy'n gwella eich rhagolygon swydd ac yn ychwanegu at eich CV.

### Pa mor hir mae'n para?

Mae'r academi gwaith seiliedig ar sector yn para hyd at 6 wythnos ac yn rhoi hyfforddiant a phrofiad gwaith i chi mewn math o swydd benodol. Ar y diwedd, cewch (naill ai) gyfweliad swydd neu help gyda phroses ymgeisio'r cyflogwr.

### Pryd allaf gymryd rhan?

Os oes gennych ddiddordeb mewn dechrau academi gwaith seiliedig ar sector, siaradwch â'ch anogwr gwaith, a fydd yn trafod gyda chi'r math o gyfleoedd sydd ar gael yn eich ardal leol ac os yw academi gwaith seiliedig ar sector yn addas i chi.

### A oes rhaid i mi fynychu?

Mae penderfynu dderbyn cynnig academi gwaith seiliedig ar sector yn gwbl wirfoddol. Ond unwaith y byddwch wedi cytuno i ymuno, mae'n **rhaid** i chi gwblhau'r hyfforddiant cyn-gyflogaeth, a mynychu'r cyfweliad swydd gwarantedig (os yw wedi'i gynnwys).

Os byddwch yn methu â chwblhau rhannau o'r academi gwaith seiliedig ar sector y mae'n rhaid i chi ei wneud heb reswm da, gellid lleihau neu atal eich budd-dal.

Mae'r academi gwaith seiliedig ar sector hefyd yn cynnwys profiad gwaith. Nid yw hwn yn rhywbeth y bydd yn rhaid i chi ei wneud ond mae o fudd i chi ei gwneud ac rydym yn eich annog i gymryd rhan lle bynnag y bo modd. Mae profiad gwaith yn amhrisiadwy ac yn caniatáu i chi a'r cyflogwr dros dro gweld a ydych yn addas ar gyfer y math o waith sydd ar gael.

Ni chaiff eich budd-dal ei atal neu ei leihau (sancsiynu) os byddwch yn penderfynu peidio â manteisio ar y lleoliad profiad gwaith.

Os ydych yn dechrau academi gwaith seiliedig ar sector a gofynnir i chi adael oherwydd camymddwyn difrifol (megis dwyn, trais neu gam-drin geiriol), gan gynnwys yn ystod profiad gwaith, efallai y bydd eich budd-dal yn cael ei sancsiynu.



Bydd Rhan 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2012 a Rheoliadau Credyd Cynhwysol 2013 yn berthnasol.

Gweler tudalen 19 am ragor o wybodaeth am sancsiynau.

### A Fyddaf yn Cael Help gydag Unrhyw Gostau?

Efallai y bydd yn rhaid i chi deithio i leoliad y cyflogwr. Gallwch gael help ar gyfer cost eich taith trwy drafnidiaeth gyhoeddus ac unrhyw gostau gofal plant priodol. Trafodwch hyn gyda'ch Anogwr Gwaith a fydd yn gallu dweud wrthych a ydych yn gymwys i gael help gyda chostau a sut i wneud cais.

Efallai y bydd yn rhaid i chi deithio i le gwaith y cyflogwr neu i ble mae'r hyfforddiant yn cael ei gynnal. Gallwch gael help ar gyfer cost eich taith trwy drafnidiaeth gyhoeddus ac unrhyw gostau gofal plant priodol.

## Oes rhaid i mi dderbyn y swydd os caiff ei chynnig i mi yn dilyn y cyfweliad gwarantedig?

Mae'n ofynnol i bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol oherwydd diweithdra gymryd swydd pan gynigir. Os cynigir swydd neu brentisiaeth i chi yn dilyn y cyfweliad gwarantedig ar gyfer academi gwaith seiliedig ar sector, efallai y bydd eich anogwr gwaith yn gofyn i chi ei derbyn.

Os bydd hyn yn digwydd ond nad ydych y derbyn y swydd, fe'i gelwir yn 'gwrthod cyflogaeth' a bydd eich budd-dal yn cael ei atal neu ei leihau (wedi'i sancsiynu) am beidio â derbyn y swydd oni bai fod gennych reswm da. Dylech siarad â'ch anogwr gwaith i gael mwy o wybodaeth.

## A fydd dal angen i mi fynd i gyfarfodydd y Ganolfan Gwaith a chwilio am waith?

Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol, byddwch wedi derbyn Ymrwymiad Hawlydd sy'n nodi'r hyn y mae angen i chi ei wneud i gadw mewn cysylltiad â'ch Anogwr Gwaith a'r pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud i baratoi ar gyfer chwilio am waith. Os bydd mynychu academi gwaith seiliedig ar sector yn eich atal rhag mynd i gyfarfodydd y Ganolfan Gwaith neu wneud pethau eraill a nodir yn eich Ymrwymiad Hawlydd, rhaid i chi gysylltu â'ch anogwr gwaith ymlaen llaw.

### Beth sy'n digwydd os byddaf yn cael swydd?

Gan eich bod dal yn gallu hawlio Credyd Cynhwysol pan fyddwch yn gweithio, mae'n bwysig dweud wrthym os ydych yn dod o hyd i waith â thâl. Os ydych chi'n gweithio, efallai na fydd yn rhaid i chi bellach mynychu cyfweliadau â ni ac efallai y byddwn yn dal i allu talu Credyd Cynhwysol i chi. Cadwch mewn cysylltiad â ni i sicrhau nad ydych yn colli allan ar arian y mae gennych hawl iddo.

## Hyfforddeiaethau

Mae hyfforddeiaethau yn gyfle i gael profiad gwaith go iawn, sgiliau gwaith a gwella eich Saesneg a Mathemateg, os oes angen. Mae'r rhaglen yn gweithredu yn Lloegr yn unig a'i nod yw datgloi potensial mawr bobl ifanc, eu helpu i ddod yn "barod am waith" a'u paratoi ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

Fe'i cynllunnir i helpu pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed nad ydynt yn meddu ar y sgiliau neu'r profiad priodol, ar hyn o bryd mae hyfforddeiaethau yn darparu'r hyfforddiant hanfodol i baratoi am waith, Saesneg, Mathemateg (os nad oes gennych gymhwyster Lefel 2) a phrofiad gwaith sydd ei angen i sicrhau prentisiaeth neu gyflogaeth.

Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan goleg neu ddarparwr lleol, a chyflwynir eich lleoliad profiad gwaith o fewn hyfforddeiaeth gan gyflogwr ac fe'i cynlluniwyd gyda'ch anghenion mewn golwg. Felly, bydd y math o leoliad a gynigir yn lleol yn amrywio. Mae hyfforddeiaeth wedi'i gynllunio i'ch helpu i feithrin hyder mewn ffordd sy'n gwella eich rhagolygon gwaith ac yn ychwanegu at eich CV.

### Pa mor hir mae'n para

Gall hyfforddeiaeth barhau hyd at 6 mis, fodd bynnag, ar gyfartaledd y mae'r rhan fwyaf yn para tua 3 mis. Ar ôl cwblhau eich hyfforddiant, efallai y cewch gynnig prentisiaeth neu swydd arall, ond os na, bydd y cyflogwr yn cynnig cyfweliad ymadael i chi drafod yr hyn yr ydych wedi'i wneud, ac i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

### Pryd y gallaf gymryd rhan ?

**Mae hyfforddeiaeth ar agor i chi o ddiwrnod cyntaf eich cais, os hoffech ddechrau hyfforddeiaeth, siaradwch â'ch anogwr gwaith a fydd yn trafod gyda chi'r math o hyfforddeiaethau sydd ar gael yn eich ardal leol ac os yw hyfforddeiaeth yn addas i chi.**

### A oes rhaid i mi fynychu?

Mae penderfynu derbyn y cynnig o hyfforddeiaeth yn gwbl wirfoddol.
Unwaith y byddwch wedi cytuno i fynychu'r asesiad hyfforddeiaeth, ac rydych yn derbyn Credyd Cynhwysol oherwydd eich bod yn ddi-waith, mae'n **rhaid** i chi fynychu a chwblhau'r asesiad hyfforddeiaeth.

Bydd eich budd-dal yn cael ei atal neu ei leihau (wedi'i sancsiynu) os penderfynwch beidio â mynychu neu gwblhau eich asesiad hyfforddeiaeth.

Ar ôl yr asesiad, mae o les i chi fynychu a chymryd rhan ym mhob agwedd o'r hyfforddeiaeth a gynlluniwyd ar eich cyfer chi, ond nid yw'n rhywbeth y mae'n ofynnol i chi ei wneud.

Ni chaiff eich budd-dal ei atal neu ei leihau (wedi'i sancsiynu) os penderfynwch beidio â chymryd rhan neu gwblhau eich hyfforddeiaeth.

Bydd Rhan 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2012 a Rheoliadau Credyd Cynhwysol 2013 yn berthnasol.

Gweler tudalen 19 am ragor o wybodaeth am sancsiynau.

## A Fyddaf yn Cael Help Gydag Unrhyw Gostau?

Efallai y bydd yn rhaid i chi deithio i weithle’r cyflogwr neu i ble mae'r hyfforddiant yn cael ei gynnal. Gallwch gael help ar gyfer cost eich taith trwy drafnidiaeth gyhoeddus ac unrhyw gostau gofal plant priodol. Trafodwch hyn gyda'ch Anogwr Gwaith a fydd yn gallu dweud wrthych a ydych chi'n gymwys i gael help gyda chostau a sut i wneud cais.

## Oes rhaid i mi dderbyn y swydd os caiff ei chynnig i mi yn ystod neu’n dilyn yr hyfforddeiaeth?

Os cewch gynnig swydd yn ystod neu ar ôl y hyfforddeiaeth, bydd eich anogwr gwaith yn debygol o’ch annog i’w dderbyn, ac mae'n debyg y bydd yn ofynnol i chi ei dderbyn. Os bydd hyn yn digwydd ac nad ydych yn derbyn y swydd, fe'i gelwir yn 'gwrthod cyflogaeth' a byddwch yn cael eich sancsiynu dros beidio â derbyn y swydd oni bai fod gennych reswm da. Dylech siarad â'ch anogwr gwaith i gael mwy o wybodaeth.

## A fydd dal angen i mi fynd i gyfarfodydd y Ganolfan Gwaith a chwilio am waith?

Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol, byddwch wedi derbyn Ymrwymiad Hawlydd sy'n nodi'r hyn y mae angen i chi ei wneud i gadw mewn cysylltiad â'ch Anogwr Gwaith a'r pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud i baratoi ar gyfer a chwilio am waith. Os bydd mynychu hyfforddeiaeth yn eich atal rhag mynd i gyfarfodydd y Ganolfan Gwaith neu wneud pethau eraill a nodir yn eich Ymrwymiad Hawlydd, rhaid i chi gysylltu â'ch anogwr gwaith ymlaen llaw.

## Beth sy'n digwydd os byddaf yn cael swydd?

Gan eich bod dal yn gallu hawlio Credyd Cynhwysol pan fyddwch yn gweithio, mae'n bwysig dweud wrthym os ydych chi'n dod o hyd i waith â thâl. Os ydych chi'n gweithio, efallai na fydd yn rhaid i chi bellach mynychu cyfweliadau â ni ac efallai y byddwn yn dal i allu talu Credyd Cynhwysol i chi. Cadwch mewn cysylltiad â ni i sicrhau nad ydych yn colli allan ar arian y mae gennych hawl iddo.

## Profiad gwaith

Os nad oes gennych lawer neu dim hanes gwaith, gall profiad gwaith eich helpu i gael profiad gyda chyflogwyr dros dro a all ychwanegu at eich CV. Fel arfer, mae profiad gwaith wedi'i anelu at bobl 18 i 24 oed, ond gall hefyd fod yn ddefnyddiol i geiswyr gwaith hŷn. Bydd eich anogwr gwaith yn dweud wrthych ba gyfleoedd sydd ar gael.

### Pam ddylwn i fod â diddordeb mewn profiad gwaith?

Mae profiad gwaith yn rhoi cyfle i chi ychwanegu rhywfaint o brofiad hanfodol i'r adran gyrfa ar ffurflenni cais a'ch CV, gan gynnwys cael canolwr. Mae hefyd yn helpu gyda:

- gwella eich rhagolygon swydd
- gweld pa sgiliau ac ymddygiadau y mae cyflogwyr eu heisiau gan bobl
- gweld sut y mae eich sgiliau yn cydweddu â'r gweithle
- magu hyder, a
- dangos i gyflogwr y sgiliau sydd gennych.

### Beth fydd bod ar brofiad gwaith yn ei olygu?

Bydd hyn yn amrywio, ond mae rhai enghreifftiau yn cynnwys gweithio mewn swyddfa, warws, siop neu fwyty. Bydd y cyflogwr dros dro yn esbonio i chi eich dyletswyddau, ond gallai gynnwys pethau fel gwasanaeth cwsmeriaid, rheoli stoc neu ddyletswyddau gweinyddol.

Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn dangos yr un safonau ymddygiad fel gweithwyr eraill, yn enwedig:

- presenoldeb
- cadw amser
- hylendid ac ymddangosiad personol, a
- dilyn yr holl reolau Iechyd a Diogelwch a roddir i chi gan y cyflogwr dros dro.

### Pa mor hir mae'n para?

Gallwch wneud profiad gwaith gyda chyflogwr dros dro yn yr ardal rydych chi'n byw ynddo. Mae profiad gwaith yn para am 2 i 8 wythnos, a bydd disgwyl i chi wneud 25 i 30 awr yr wythnos (oni bai eich bod wedi cyfyngu ar yr oriau gallwch weithio, a elwir yn 'argaeledd', gyda'ch anogwr gwaith).

Os mae'r cyflogwr dros dro yn cynnig prentisiaeth i chi, (sy'n swydd â thâl gyda hyfforddiant), ac rydych chi'n ei dderbyn, gallwch wneud hyd at bedwar wythnos ychwanegol o brofiad gwaith tra bydd y gwaith papur ar gyfer eich prentisiaeth yn cael ei chwblhau. Byddwch yn dal i gael budd-dal nes bydd eich prentisiaeth yn dechrau.

Os ydych ar y Rhaglen Cymorth Rhwymedigaeth Ieuenctid (ar gyfer ceiswyr gwaith 18-21 oed) ac rydych wedi bod yn ddi-waith am 6 mis, cewch gynnig cyfle profiad gwaith 3 mis gwarantedig, os na fyddwch yn dilyn hyfforddiant arall sy'n gysylltiedig â gwaith yn y cyfnod hwn, i'ch helpu i gyflawni eich nodau swydd.

**Pryd y gallaf gymryd rhan?**

**Mae lleoliad profiad gwaith ar agor i chi o ddiwrnod cyntaf eich cais, bydd eich anogwr gwaith yn trafod gyda chi'r math o brofiad gwaith sy'n addas i chi.**

**Sut allai cael gwybod am gyfle profiad gwaith?**

Efallai y byddwch yn dod o hyd i gyfle eich hun neu bydd eich anogwr gwaith yn nodi'r hyn sydd ar gael, ac yn dibynnu ar y cyflogwr mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi fynd trwy broses ymgeisio. Gallai hyn olygu cwblhau ffurflen gais, neu fynychu cyfweliad anffurfiol. Bydd y broses hon yn eich helpu i feithrin eich sgiliau gwneud cais.

Os cewch gyfle i chi'ch hun, mae'n bwysig rhoi gwybod i'ch anogwr gwaith a all sicrhau bod y cyflogwr yn addas ac yn cynnig cyfle profiad gwaith o safon.

Bydd eich anogwr gwaith yn gofyn i chi arwyddo ffurflen ganiatâd data fel y gallant rannu'ch gwybodaeth i'r cyflogwr dros dro.

**Oes rhaid i mi fynychu?**

Mae penderfynu derbyn y cynnig o leoliad profiad gwaith yn gwbl wirfoddol.

Unwaith y byddwch wedi cytuno i fynychu'r lleoliad profiad gwaith, mae er eich lles chi i fynychu a chymryd rhan, ond nid yw'n rhywbeth y mae'n ofynnol i chi ei wneud.

Ni chaiff eich budd-dal ei atal neu ei leihau (wedi'i sancsiynu) os penderfynwch beidio â chymryd rhan neu gwblhau profiad gwaith.

**A Fyddaf yn Cael Help Gydag Unrhyw Gostau?**

Bydd angen i chi deithio i weithle’r cyflogwr, gallwch gael help ar gyfer cost eich taith trwy drafnidiaeth gyhoeddus ac unrhyw gostau gofal plant priodol.

**Oes rhaid i mi dderbyn y swydd os caiff ei chynnig i mi yn ystod neu ar ôl dilyn y profiad gwaith?**

Os cewch gynnig swydd yn ystod neu ar ôl y eich profiad gwaith, bydd eich anogwr gwaith yn debygol o’ch annog i’w dderbyn, ac mae'n debyg y bydd yn ofynnol i chi ei dderbyn. Os bydd hyn yn digwydd ac nad ydych yn derbyn y swydd, fe'i gelwir yn 'gwrthod cyflogaeth' a byddwch yn cael eich sancsiynu dros beidio â derbyn y swydd oni bai fod gennych reswm da. Dylech siarad â'ch anogwr gwaith i gael mwy o wybodaeth.

**A fydd angen i mi fynd i gyfarfodydd y Ganolfan Gwaith a chwilio am Waith?**

Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol, byddwch wedi derbyn Ymrwymiad Hawlydd sy'n nodi'r hyn y mae angen i chi ei wneud i gadw mewn cysylltiad â'ch Anogwr Gwaith a'r pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud i baratoi ar gyfer gwaith chwilio. Os yw cael profiad gwaith yn eich atal rhag mynd i gyfarfodydd y Ganolfan Byd Gwaith neu wneud pethau eraill a nodir yn eich Ymrwymiad Hawlydd, rhaid i chi gysylltu â'ch hyfforddwr gwaith ymlaen llaw.

### Beth sy'n digwydd os byddaf yn cael swydd?

Gan eich bod yn dal i allu hawlio Credyd Cynhwysol pan fyddwch yn gweithio, mae'n bwysig dweud wrthym os ydych chi'n dod o hyd i waith taledig. Os ydych yn gweithio, efallai na fydd yn rhaid i chi fynychu cyfweliadau â ni nawr ac efallai y byddwn yn dal i allu talu Credyd Cynhwysol i chi. Cadwch mewn cysylltiad â ni i sicrhau nad ydych yn colli allan ar arian y mae gennych hawl iddo.

## Lwfans Menter Newydd

Mae'r cynllun Lwfans Menter Newydd yn cynnig mentora busnes a chymorth ariannol os ydych am fynd yn hunangyflogedig. Byddwch yn cael cyfweliad gyda sefydliad partner mentora a fydd yn cynnal asesiad cychwynnol o'ch syniad busnes.

Os ydych yn cael eich derbyn ar y cynllun Lwfans Menter Newydd, byddwch yn gweithio gyda mentor busnes am tua 8 wythnos i greu cynllun busnes. Bydd y cynllun busnes yna'n amodol ar broses gymeradwyo.

Gallwch wneud cais am gymorth ariannol y Lwfans Menter Newydd o fewn 13 wythnos i'ch cynllun busnes cael ei gymeradwyo.

Ni fydd angen i chi gau eich cais i gael y Lwfans Menter Newydd cyn belled â'ch bod yn parhau i fodloni'r amodau eraill o hawl ar gyfer Credyd Cynhwysol.

### Pa mor hir mae'n para?

Byddwch yng 'nghyfnod mentora'r' Lwfans Menter Newydd am hyd at 8 wythnos (gall hyn gael ei ymestyn i 12 wythnos mewn amgylchiadau eithriadol). Gall eich mentor parhau i'ch cefnogi chi am 6 mis arall tra byddwch yn cael y Lwfans Menter Newydd wythnosol.

Telir y lwfans wythnosol am hyd at 26 wythnos ar ôl cymeradwyo eich cynllun busnes a chau eich cais am fudd-dal.

### Pryd y gallaf gymryd rhan?

Gall unrhyw un ymuno o ddiwrnod cyntaf eu cais am Gredyd Cynhwysol, **oni bai**

- mae gennych sancsiwn neu rydych wedi cael sancsiwn oherwydd eich bod wedi gadael eich swydd ddiwethaf yn wirfoddol neu wedi eich diswyddo am gamymddwyn. Os felly, ni allwch ymuno hyd nes y byddwch wedi hawlio budd-dal am 13 wythnos, neu
- rydych yn rhoi'r gorau i redeg eich busnes eich hun yn y 3 mis cyn cael budd-dal. Ni allwch ymuno hyd nes y byddwch wedi hawlio am 13 wythnos, ac y mae'n rhaid i'ch syniad busnes fod yn hollol wahanol i'ch busnes blaenorol.

Bydd eich anogwr gwaith am sicrhau eich bod chi'n barod i ymuno â'r cynllun Lwfans Menter Newydd, a bydd yn trafod a oes gennych syniad sefydledig ar gyfer eich busnes ac os gallwch ymrwymo i archwilio opsiynau pellach i droi'r syniad yn realiti.

Os bydd eich anogwr gwaith yn meddwl eich bod yn iawn ar gyfer y cynllun Lwfans Menter Newydd ac rydych yn dymuno bwrw ymlaen, byddant yn eich anfon at y darparwr mentora.

**Beth sy'n digwydd os wyf yn hawlio Credyd Cynhwysol?**

Gallwch ymuno â'r Cynllun Lwfans Menter Newydd wrth hawlio Credyd Cynhwysol cyn belled â'ch bod yn gymwys, yn yr un modd ag y byddech chi am Lwfans Ceisio Gwaith.

Mae Credyd Cynhwysol yn gweithio'n wahanol i fudd-daliadau eraill, felly ni fydd angen i chi gau eich cais. Ond gellir ystyried arian arall a gewch, gan gynnwys Lwfans Menter Newydd, wrth gyfrifo swm eich budd-dal.

**Beth sydd angen i mi ei wneud tra'n rhan o'r Lwfans Menter Newydd?**

Ar ôl i chi gael eich derbyn ar y cynllun, bydd angen i chi fodloni'r amodau hyn:

• mynychu pob cyfarfod â mudiad darparwyr mentor/mentora, lle rhoddwyd rhybudd o leiaf 24 awr i chi

• gwneud pethau bob wythnos i ddatblygu'r cynnig busnes, a

• dweud wrth y Ganolfan Byd Gwaith o fewn 2 ddiwrnod gwaith os nad yw'r syniad busnes yn cael ei ddilyn bellach a/neu mae'r berthynas fentora'n dod i ben.

Os na fyddwch yn bodloni'r amodau hyn, bydd eich budd-dal yn cael ei sancsiynu oni bai fod gennych reswm da dros pam na wnaethoch chi wneud hynny.

Gweler tudalen 19 am ragor o wybodaeth am sancsiynau.

Bydd Rhan 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2012 a Rheoliadau Credyd Cynhwysol 2013 yn berthnasol.

**Bydd fy anogwr gwaith yn fy nghyfeirio at y cynllun Lwfans Menter Newydd, ond rwyf wedi newid fy meddwl. Beth ddylwn ei wneud?**

Cyn i'ch anogwr gwaith sefydlu'r cyfarfod gyda'r darparwr mentora, byddant yn gwirio a ydych yn dal i fod eisiau cymryd rhan. Os na, ni fydd hyn yn effeithio ar eich hawliad Credyd Cynhwysol cyn belled â'ch bod yn dweud wrth eich angowr gwaith cyn iddynt wneud yr atgyfeiriad. Os byddwch yn newid eich meddwl ar ôl i chi gael eich cyfeirio, ond cyn i chi ddechrau'r cynllun, hysbyswch y Ganolfan Byd Gwaith am eich penderfyniad cyn gynted â phosib. Ni chewch eich sancsiynu os byddwch yn newid eich meddwl cyn i chi ddechrau'r cynllun.

**Fe'm derbyniwyd ar y cynllun Lwfans Menter Newydd ac rwyf wedi penderfynu nad yw hunangyflogaeth yn iawn i mi. Beth ddylwn ei wneud?**

Os penderfynwch nad yw hunangyflogaeth yn iawn i chi tra'n datblygu'ch cynllun busnes, gallwch adael y cynllun heb gael eich budd-dal wedi'i sancsiynu. Mae'n hanfodol eich bod yn rhoi gwybod i'r Ganolfan Byd Gwaith o'ch penderfyniad i adael y cynllun o fewn 2 ddiwrnod gwaith er mwyn osgoi cael sancsiwn.

## A fydd dal angen i mi fynd i gyfarfodydd y Ganolfan Gwaith?

Bydd. Bydd angen i chi fynychu cyfarfodydd y Ganolfan Gwaith a bydd disgwyl i chi ddarparu tystiolaeth ar gyfer sut rydych chi'n datblygu eich syniadau busnes.

### Beth os byddaf yn cael swydd yn ogystal â, neu yn lle hunangyflogedig?

Gan eich bod yn dal i allu hawlio Credyd Cynhwysol pan fyddwch yn gweithio, mae'n bwysig dweud wrthym os ydych chi'n dod o hyd i waith â thâl. Os ydych yn gweithio, efallai na fydd yn rhaid i chi fynychu cyfweliadau â ni ac efallai y byddwn yn dal i allu talu Credyd Cynhwysol i chi. Cadwch mewn cysylltiad â ni i sicrhau nad ydych yn colli allan ar arian y mae gennych hawl iddo.

### Y Rhaglen Waith ac Iechyd

Mae'r Rhaglen Waith ac Iechyd yn cael ei darparu gan ddarparwyr preifat, cyhoeddus a gwirfoddol i ddarparu cyflogaeth barhaus i bobl anabl, grwpiau dan anfantais a'r di-waith hirdymor.

Pan ymunwch â'r Rhaglen Waith ac Iechyd, bydd eich darparwr yn dweud wrthych am y gefnogaeth y byddant yn gallu rhoi i chi a sut y gallant eich helpu. Gyda'ch gilydd, byddwch yn gwneud cynllun gweithredu o bethau y mae angen i chi eu gwneud i baratoi ar gyfer gwaith.

### Pryd y byddaf yn cael fy nghyfeirio at y Rhaglen Waith ac Iechyd?

Os ydych chi o fewn y system chwilio gwaith dwys gyda Chredyd Cynhwysol ac nad ydych wedi symud i mewn i gyflogaeth o fewn 24 mis i'ch cais, fe'ch cyfeirir at y Rhaglen Waith ac Iechyd ar ôl 24 mis.

### A allaf gael ei gyfeirio cyn hyn?

Gallwch wirfoddoli i ymuno â'r Rhaglen Waith ac Iechyd os ydych yn:

- cyn-droseddwr (rhywun sydd wedi cwblhau dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol), neu'n droseddwr (rhywun sy'n gwasanaethu dedfryd gymunedol)
- gofalwr
- cyn-ofalwr
- person digartref
- cyn aelod o Luoedd Arfog EM
- milwr wrth gefn Lluoedd Arfog EM
- yn bartner o bersonél presennol neu gyn-aelod o'r Lluoedd Arfog
- person y mae dibyniaeth ar gyffuriau/alcohol (gan gynnwys hanes ohoni) yn rhwystr sylweddol i gyflogaeth
- yn gadael gofal
- ffoadur
- person ifanc mewn gangiau
- dioddefwr trais yn y cartref

## Pa mor hir mae'n para?

Bydd eich darparwr Rhaglen Waith ac Iechyd yn eich cefnogi am 456 diwrnod (15 mis), hyd yn oed os yw'ch budd-dal yn newid neu os byddwch chi'n dod o hyd i swydd.

Os cewch swydd, gallant gynyddu'r gefnogaeth i 639 diwrnod (21 mis) os bydd angen hyn arnoch.

## Beth fydd yn digwydd yn ystod y Rhaglen Waith ac Iechyd?

Oherwydd bod y Rhaglen Waith ac Iechyd wedi'i theilwra i unigolion, bydd y math o gymorth yn cael ei bersonoli i anghenion pob cyfranogwr. Mae enghreifftiau o'r math o gefnogaeth sydd ar gael yn cynnwys cyfranogwyr â gweithiwr allweddol personol gyda chyswllt wyneb yn wyneb rheolaidd, mentora a chymorth cyfoedion, mynediad integredig at rwydweithiau cymorth arbenigol ar lefel leol gan gynnwys gweithwyr proffesiynol iechyd a lles a chymorth gan arbenigwyr cyflogaeth ymroddedig â gwybodaeth am gyfleoedd gwaith lleol.

## Ble bydd fy nghyfarfodydd Rhaglen Waith ac Iechyd yn cael eu cynnal?

Bydd eich darparwr Rhaglen Waith ac Iechyd yn anfon llythyr atoch i roi gwybod i chi am amser, dyddiad a lleoliad eich cyfarfod.

## Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn mynd i gyfarfodydd, neu'n gwneud y gweithgareddau y maent yn gofyn i mi eu gwneud?

Bydd Rhan 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2012 a Rheoliadau Credyd Cynhwysol 2013 yn berthnasol.

Mae'n rhaid i chi gwblhau unrhyw weithgaredd y bydd eich darparwr yn ei ddweud wrthych i'w wneud; gall hyn gynnwys gwneud cais am gyfleoedd gwaith neu fynychu cyfweliadau am swyddi. Os na fyddwch, caiff eich budd-dal ei sancsiynu oni bai fod oes gennych reswm da dros pam na wnaethoch hynny. Mae'n bwysig iawn eich bod yn dweud wrth eich darparwr os ydych yn cael problemau neu os na allwch gymryd rhan yn y gweithgaredd angenrheidiol ar unrhyw adeg am unrhyw reswm.

Yn union fel gyda'ch cyfarfodydd Canolfan Gwaith, os na allwch fynd i gyfarfod y Rhaglen Waith ac Iechyd mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch darparwr mewn da bryd.

## Beth mae disgwyl i mi ei wneud yn ystod y Rhaglen Waith ac Iechyd?

Wrth gymryd rhan yn y Rhaglen Waith, ac Iechyd, rhaid i chi:

- gwneud y pethau y mae'ch darparwr yn gofyn i chi eu gwneud i baratoi am waith
- gwneud cais am swydd, mynychu cyfweliad swydd neu dderbyn cynnig swydd os gofynnir i chi wneud hwn gan eich darparwr
- cymryd rhan ym mhob cyfarfod gyda'ch anogwr gwaith
- dweud wrth eich darparwr neu anogwr gwaith ar unwaith os na allwch wneud rhywbeth meant wedi gofyn i chi ei gwneud a rhoi rheswm
- dweud wrthym ni â'ch darparwr ar unwaith os yw'ch amgylchiadau'n newid

## Treialon Gwaith

Mae rhai pobl y gwyddom sy’n fwy tebygol o gael trafferth wrth gystadlu am swyddi a sicrhau cyflogaeth. Gwyddom hefyd y gall rhai cyflogwyr gael amheuon am rai pobl, ac efallai eu bod yn llai tebygol o gyflogi rhywun y maent yn amau amdanynt.

Pwrpas Treial Gwaith yw goresgyn unrhyw amheuon sy'n weddill gan y cyflogwr a/neu chi yn dilyn cyfweliad ffurfiol ar gyfer swydd wag. Mewn termau syml, i'r ddau barti, mae Treial Gwaith yn gyfle i 'geisio cyn i chi brynu'.

Gallwch chi ddechrau Treial Gwaith os yw'r swydd y mae'r cyflogwr yn ceisio'i lenwi’n weithredol i chi wneud cais amdano. Golyga hyn, yn ystod yw’r un a chynigir cyfnod prawf, chi yw'r unig berson dan sylw ar gyfer y swydd wag dan sylw, e.e. mae’r swydd yn un chi os ydych chi’ch **dau** yn fodlon dilyn y cyfnod prawf.

Rhaid i'r cyflogwr gael swydd wag wirioneddol y maent yn bwriadu ei llenwi;

- rhaid i'r swydd wag barhau am 16 awr yr wythnos neu fwy
- disgwylir i'r swydd wag barhau am o leiaf 13 wythnos
- rhaid i'r swydd wag gael ei seilio yn y Deyrnas Unedig, a
- ni fydd y swydd wag mewn galwedigaeth/sector y mae DWP yn ei ystyried yn amhriodol

Mae'r pwyntiau hanfodol hyn yn rhoi hunaniaeth unigryw i Dreialon Gwaith ac yn ei gwahanu oddi wrth Brofiad Gwaith neu hyfforddiant arall yn seiliedig yn y gwaith y gellid ei wneud o fewn rhaglenni marchnad lafur eraill.

Fe'u cynllunnir i helpu pobl sy'n barod i ddechrau gweithio, ond efallai y bydd angen iddynt ddysgu'r sgiliau a'r ymddygiadau y mae cyflogwyr mewn yn ddiwydiannau penodol yn chwilio amdanynt mewn gweithwyr newydd.

### Pa mor hir mae’n para?

Argymhellwn yn gryf y dylai'r cyfnod treial cychwynnol fod am ychydig ddyddiau. Gall hyn wedyn gael ei adolygu a'i ymestyn, os yw'r holl bartïon yn cytuno.

Mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, gall treial barhau hyd at uchafswm o 30 diwrnod gwaith (dros gyfnod nad yw'n fwy na 6 wythnos calendr), a byddwch yn penderfynu hyd bob Treial Gwaith gyda'r cyflogwr.

### Pryd y gallaf gymryd rhan?

Os credwch y byddai Treial Gwaith yn eich helpu chi gyda'r swyddi yr ydych yn ymgeisio amdanynt, siaradwch â'ch anogwr gwaith, a fydd yn ei drafod gyda chi ac, os yw'n briodol, yn eich helpu i gymryd cynnig Treial Gwaith.

### Oes rhaid i mi fynychu?

Mae cymryd rhan mewn treial gwaith yn hollol wirfoddol, os cytunir ar gyfnod prawf gyda chyflogwr, rydym yn eich annog i fanteisio ar y cyfle hwn i oresgyn unrhyw amheuon a allai fod gennych chi neu'r cyflogwr.

Ni chaiff eich budd-dal ei atal neu ei leihau (wedi'i sancsiynu) os penderfynwch beidio â chymryd y Treial Gwaith neu’n penderfynu yn ystod y cyfnod nad yw'r swydd ar eich cyfer chi.

**A Fyddaf yn Cael Help gydag Unrhyw Gostau?**

Mae'n amlwg y bydd yn rhaid i chi deithio i weithle'r cyflogwyr ac mae DWP yn glir na fydd unrhyw hawlydd "allan o boced", felly trafodwch eich treuliau teithio gyda'ch Anogwr Gwaith gan y gallwch gael help i dalu am gost eich taith trwy drafnidiaeth gyhoeddus ac unrhyw gostau gofal plant priodol.

Disgwylir i chi dalu costau unrhyw brydau a brynir yn ystod eich Treial Gwaith.

**A oes rhaid i mi dderbyn y swydd os cynigir i mi yn dilyn y Treial Gwaith?**

Mae Treialon Gwaith wedi'u cynllunio i'ch helpu i wneud y penderfyniad cywir wrth dderbyn swydd - os cynigir y swydd neu brentisiaeth yn ystod/yn dilyn y Treial Gwaith, chi sy'n penderfynu a ydych am ei dderbyn ai peidio. Nid yw eich anogwr gwaith yn ei gwneud yn ofynnol i chi ei dderbyn fel rhan o'ch hawliad budd-dal Credyd Cynhwysol.

**A fydd angen i mi fynd i gyfarfodydd y Ganolfan Gwaith a chwilio am waith?**

Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol, byddwch wedi derbyn Ymrwymiad Hawlydd sy'n nodi'r hyn y mae angen i chi ei wneud i gadw mewn cysylltiad â'ch Anogwr Gwaith a'r pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud i baratoi ar gyfer gwaith a chwilio am waith. Tra ar Dreial Gwaith, mae gofyn i chi fodloni'r gofynion a nodir yn eich ymrwymiad hawlydd o hyd, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd gyda'ch Anogwr Gwaith. Bydd eich Anogwr Gwaith yn gwneud trefniadau gyda chi i sicrhau eich bod yn gallu mynychu unrhyw gyfarfod o'r fath.

Os credwch fod eich Treial Gwaith yn eich atal rhag gwneud y pethau a nodir yn eich Ymrwymiad Hawlydd, rhaid i chi gysylltu â'ch Anogwr Gwaith ymlaen llaw.

## Sancsiynau budd-dal – os ydych yn ddi-waith ac yn chwilio am waith

Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol, mae rhai pethau rydym yn disgwyl i chi eu gwneud i barhau i gael eich budd-dal.

Byddwch yn cwrdd ag anogwr gwaith a fydd yn cael gwybod am eich sefyllfa. Byddant yn:

- eich helpu i nodi'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud i ddod o hyd i waith (bydd y camau hyn yn cael eu hychwanegu at eich Ymrwymiad Hawlydd)
- cwrdd â chi’n rheolaidd i adolygu eich cynnydd, naill a’i wyneb yn wyneb neu drwy eich dyddlyfr.

Efallai y bydd angen i chi gymryd rhan mewn cyfleoedd a chynlluniwyd i wella’ch rhagolygon gwaith ac y disgrifir yn y canllaw hwn. Darperir y cynlluniau cyflogaeth gan ddarparwyr i’ch helpu i ddod o hyd i ac aros mewn gwaith. Efallai y gall eich darparwr hefyd nodi pethau ychwanegol y mae'n rhaid i chi ei wneud i ddod o hyd i waith.



**Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud popeth y gallwch i ddod o hyd i waith. Yn gyfnewid, byddwch yn cael eich taliad budd-dal a’n cymorth.**

Mae’r rhan fwyaf o bobl yn gwneud popeth o fewn eu gallu. Os na wnewch hynny, gellir atal eich taliad budd-dal dros dro neu’i leihau (sef sancsiwn).

**Beth sy'n rhaid i mi ei wneud i gadw fy nhaliad budd-dal llawn?**

Cewch eich taliad budd-dal llawn gyhyd â'ch bod:

- yn mynd i gyfarfodydd ar amser gyda'ch anogwr gwaith a chymryd rhan mewn cyfweliadau
- yn gwneud cais am swyddi addas rydych chi neu’ch anogwr gwaith yn eu nodi
- yn gweithredu gweithgareddau/’To Do’s a anfonir i chi trwy eich Dyddlyfr (i’r rhai sy’n hawlio Credyd Cynhwysol, fel mynychu cwrs hyfforddi neu ddiweddaru eich CV
- yn gwneud popeth y gallwch i ddod o hyd i waith, trwy gymryd yr holl gamau gweithredu yn eich Ymrwymiad Hawlydd

- yn cymryd rhan mewn cyfleoedd rydych yn cytuno mynychu yn dilyn trafodaethau gyda’ch anogwr gwaith neu asesiad gyda’ch darparwr. Bydd angen i chi barhau i gwrdd â'ch anogwr gwaith (gweithredu eich dyddlyfr yng Nghredyd Cynhwysol gwasanaeth lawn) a gwneud y gweithgareddau a nodir yn eich Ymrwymiad Hawlydd
- **Os nad ydych yn gallu, neu wedi peidio â gwneud y pethau hyn, dywedwch wrth eich anogwr gwaith neu ddarparwr cynllun cyflogaeth ar unwaith.**

Os gallwch ddangos bod gennych reswm da, byddwch yn parhau i gael eich taliad budd-dal llawn. Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch, cyn gynted ag y gallwch. Er enghraifft, ffoniwch eich anogwr gwaith os nad ydych yn gallu dod i gyfarfod a rhoi gwybod iddynt pam.

Os na wnewch y pethau hyn, ac nid oes gennych reswm da, gellir atal eich taliad budd-dal neu'i leihau am gyfnod o amser.

Mae'n bwysig eich bod yn deall yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud i gael eich taliad budd-dal, a beth fydd yn digwydd os na fyddwch yn gwneud hyn. Gofynnwch i'ch anogwr gwaith i esbonio os nad ydych yn siŵr.

**Am ba gyfnod y gellir atal neu leihau fy nhaliad budd-dal?**

Bydd pa mor hir y bydd eich budd-dal yn cael ei atal neu'i leihau yn dibynnu ar:

- y rheswm rydych yn hawlio budd-dal - er enghraifft, os cawsoch eich diswyddo am gamymddwyn yn eich swydd ddiwethaf, neu adael heb reswm da
- yr hyn nad ydych wedi'i wneud i ddod o hyd i waith
- p'un a yw eich taliad budd-dal wedi'i atal, neu fod eich cais wedi'i derfynu yn y flwyddyn ddiwethaf, a'r rheswm (rhesymau) dros hyn.

**Mathau o sancsiynau budd-dal**

- Cewch **sancsiwn lefel is, os:**
- Na ydych yn mynd i gyfarfodydd ar amser gyda'ch anogwr gwaith a chymryd rhan mewn cyfweliadau
- Na ydych yn gwneud yr hyn rydych wedi cytuno i'w gwneud i ddod o hyd i waith fel mynychu cwrs hyfforddi neu ddiweddaru eich CV
- Na ydych yn cymryd rhan mewn cyfleoedd a ddisgrifir yn y canllaw hwn ar ôl cytuno i mynychu
- Na ydych yn cwrdd â darparwr eich cynllun cyflogaeth ar amser neu gymryd camau maent yn eu dweud wrthych i'w gwneud

Bydd eich Credyd Cynhwysol yn cael ei leihau neu ei atal am y nifer o ddyddiau o'r diwrnod rydych wedi methu â gwneud yr hyn y gofynnwyd/y cytunwyd arno, i'r diwrnod cyn i chi ei wneud neu weithgaredd tebyg a osodwyd gan eich anogwr gwaith neu ddarparwr y cynllun.

Bydd eich budd-dal yn parhau i gael ei leihau neu ei atal am gyfnod penodol arall o 7, 14 neu 28 diwrnod yn dibynnu ar nifer yr achlysuron y cawsoch eu cosbi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Cewch **sancsiwn lefel uwch os:**

- Cawsoch eich diswyddo am gamymddwyn o'ch swydd ddiwethaf.
- Gwnaethoch adael eich swydd ddiwethaf, neu golli cyflog o ganlyniad i gamymddwyn neu adael eich swydd ddiwethaf yn wirfoddol, heb reswm da
- Na ydych yn cymryd camau i wneud cais am swyddi addas y bydd eich anogwr gwaith neu ddarparwr yn dweud wrthych amdanynt
- Na ydych yn cymryd swydd a gynigir i chi

Mae sancsiwn lefel uwch yn golygu y bydd eich Credyd Cynhwysol yn cael ei leihau neu'i atal, am 13,26 neu 156 wythnos yn dibynnu ar nifer yr adegau y cawsoch eich sancsiynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**Os nad ydych yn gwneud popeth y gallwch i chwilio am waith a bod ar gael i weithio**

**Os ydych yn hawlydd Credyd Cynhwysol, disgwylir i chi wneud popeth sy'n rhesymol i chi ddod o hyd i waith ac i gymryd gwaith yn syth. Fel arall, efallai y byddwch yn cael sancsiwn lefel canolig os nad oes gennych reswm da dros beidio â gwneud hynny.**

**Os cewch sancsiwn lefel canolig, bydd eich budd-dal yn cael ei leihau neu ei atal am gyfnod penodol o 28 neu 91 diwrnod yn dibynnu ar nifer yr adegau y cawsoch eich sancsiynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.**



**Beth ddylwn ei wneud os bydd fy nhaliad budd-dal yn cael ei atal neu os caiff fy nghais ei derfynu?**

Os yw eich taliad budd-dal yn cael ei atal, dylech barhau i wneud popeth o fewn eich gallu i ddod o hyd i waith. Os na wnewch hynny, gall eich taliad budd-dal gael ei atal am gyfnod hirach, neu gall eich cais gael ei derfynu.

Os ydych yn cael gostyngiad yn eich treth cyngor, dylech gysylltu â'ch cyngor lleol ar

unwaith os caiff eich taliad Credyd Cynhwysol ei atal neu'i leihau. Dylech gysylltu â hwy i ddeall pa wybodaeth y byddant eisiau gennych er mwyn sicrhau eich bod yn dal i gael unrhyw ostyngiad yn eich treth cyngor y gallai fod gennych hawl i'w gael.

**Taliadau caledi**

Os yw eich taliad budd-dal yn cael ei atal ac nad oes gennych ddigon o arian i fyw arno, efallai y byddwch yn gallu cael taliad caledi. Mae hwn yn swm llai o fudd-dal. Cysylltwch â ni os ydych am ddeall mwy am daliadau caledi ac i weld a allwch wneud cais.

## Beth os nad wyf yn cytuno â'r penderfyniad i atal neu leihau fy nhaliad budd-dal, neu derfynu fy hawliad

### Rhowch wybodaeth lawn i ni

Os ydych yn cael gwybod efallai y bydd eich taliad budd-dal yn cael ei atal neu'i leihau, neu efallai y bydd eich hawliad yn dod i ben, dylech roi gwybodaeth newydd ar unwaith am pam nad ydych wedi mynd i gyfarfodydd ar amser neu gymryd camau gweithredu.

Bydd swyddog penderfyniadau'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), yn hytrach na'ch anogwr gwaith neu ddarparwr cynllun cyflogaeth, yn penderfynu os oes gennych reswm da.

Os byddant yn penderfynu nad oes rheswm da, byddant yn penderfynu pa mor hir i atal eich taliad budd-dal, neu p'un ai derfynu eich cais. Gallwch ofyn pam fod penderfyniad wedi ei wneud drwy gysylltu â ni.

### Gofyn i ni ailystyried y penderfyniad

Os credwch fod y penderfyniad yn anghywir, gallwch ofyn iddo gael ei ystyried eto o fewn mis i'ch budd-dal cael ei atal, ei leihau neu i'ch cais cael ei gau. Eglurwch pam fod y penderfyniad yn anghywir a dangoswch unrhyw dystiolaeth sydd gennych. Bydd y penderfyniad yn cael ei edrych arno eto a byddwn yn anfon llythyr i ddweud wrthych yr hyn sydd wedi'i benderfynu a pham. Rydym yn galw'r llythyr hwn yn 'Hysbysiad Ailystyriaeth Orfodol'.

### Apêl

Os ydych yn anghytuno â'r Hysbysiad Ailystyriaeth Orfodol, gallwch apelio i dribiwnlys. Mae'n rhaid i chi aros am yr 'Hysbysiad Ailystyriaeth Orfodol' cyn i chi ddechrau apêl. Gallwch lawrlwytho ffurflen apêl yn **www.gov.uk/cymraeg** drwy chwilio am 'SSCS1'.

Mae’r cyfleoedd Dychwelyd i Waith a amlinellir yn y daflen hon yn rhan o’r ddeddfwriaeth ganlynol:

Rhan 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2012
Rheoliadau Credyd cynhwysol 2013

Mae'r daflen hon yn darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith.